NODIADAU CYFARWYDDYD I YMGEISWYR

Ym Mro Morgannwg, mae'r ffurflen gais yn chwarae rhan hanfodol yn y broses ddethol, wrth benderfynu a fyddwch ar y rhestr fer ac yn y cyfweliad ei hun. Mae'n hanfodol eich bod yn llenwi'r ffurflen hon mor llawn a chywir â phosibl. Mae'r cynghorion canlynol wedi'u cynllunio i'ch helpu chi, yn enwedig os nad oes gennych chi lawer o brofiad o lenwi ffurflenni cais.

Bydd yr holl wybodaeth a ysgrifennwch yn cael ei defnyddio gan y panel rhestr fer / dethol a bydd y ffurflen yn cael ei chadw ar ffeil yn unol â pholisïau cadw'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn croesawu ceisiadau i unrhyw swydd gael eu cwblhau yn Gymraeg neu yn Saesneg. **Ni dderbynnir CV**.

Darllenwch yr hysbyseb, y disgrifiad swydd, y fanyleb berson ac unrhyw fanylion / gwybodaeth ategol bellach yn ofalus.

Mae'r Disgrifiad Swydd ac unrhyw fanylion eraill yn amlinellu pa dasgau penodol y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn eu cyflawni.

Mae'r Fanyleb Berson yn dweud wrthych ba sgiliau, gallu, gwybodaeth, cymwysterau, profiad a rhinweddau personol hanfodol a dymunol yr ydym yn chwilio amdanynt. Fel arfer, mae'n rhaid bod gennych yr holl nodweddion hanfodol ac mae'n fanteisiol cael rhywfaint neu'r cyfan o'r nodweddion dymunol.

Cwblhau'r Ffurflen Gais

Atebwch bob rhan o'r ffurflen. Sicrhewch eich bod yn glir a darllenwch eich cais yn ofalus i wirio am unrhyw gamgymeriadau. Dychwelwch i'r cyfeiriad a nodir ar gefn y ffurflen gais.

Manylion Personol - Cwblhewch yn llawn gan ddefnyddio llythrennau bras

Monitro Cyfle Cyfartal - Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gyfle cyfartal. Mae'r wybodaeth hon yn gyfrinachol ac yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro yn unig a bydd yn cael ei gwahanu o'i derbyn cyn bydd y gwaith o lunio'r rhestr fer yn digwydd. Mae'r Adran Amrywiaeth yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau na wahaniaethir yn annheg yn erbyn unigolion yn ystod y broses recriwtio nac fel un o weithwyr y Cyngor.

Euogfarnau Troseddol - Mae'r Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr yn mynnu eich bod yn datgan unrhyw euogfarnau heb ei disbyddu. Mae rhai swyddi'n gofyn am ddatgan euogfarnau sydd wedi darfod. Os oes gennych gofnod o drosedd, ni fydd hyn o reidrwydd yn eich gwahardd. Cyhoeddir canllaw i Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 gan Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi, neu mae ar gael mewn unrhyw Swyddfa Cyngor ar Bopeth.

Os yw'r swydd yn cynnwys cyfle sylweddol i gael mynediad at blant neu bobl agored i niwed, bydd tystysgrif datgelu Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd trwy system e-Swmp DBS y Cyngor i foddhad y Cyngor yn cael ei gyrchu gan ymgeiswyr llwyddiannus.

Hanes Cyflogaeth

Cyflogaeth Bresennol - Rhowch fanylion eich cyflogaeth bresennol neu ddiweddaraf neu'ch rôl bresennol - byddwch yn glir. Os oes gennych fwy nag un swydd, cofiwch gynnwys y ddwy a pharhau ar daflen arall os oes angen.

Cyflogaeth Flaenorol - Nodwch eich hanes cyflogaeth llawn yn nhrefn dyddiad gyda'r mwyaf diweddaraf yn gyntaf. Bydd hyn yn dangos ehangder llawn eich profiad i ni. Dylech gynnwys unrhyw waith academaidd / gwirfoddol neu waith mewn rhyw fath arall o rôl.

Defnyddiwch yr adran olaf i gyfrif am unrhyw fylchau yn eich hanes cyflogaeth ers gadael yr ysgol e.e. os oeddech chi'n ddi-waith neu'n cymryd hoe am resymau teuluol, nodwch y dyddiadau a'r manylion yma.

Profiad a Chyflawniadau

Gan ddefnyddio'r fanyleb berson dylech nodi pam eich bod am ymuno â'r Cyngor ar gyfer y swydd hon a pham eich bod yn ymgeisydd da. Meddyliwch yn ofalus pam eich bod chi'n addas ar gyfer y swydd. Y ffordd orau o ddarparu tystiolaeth ar gyfer pob eitem yw defnyddio enghreifftiau a rhoi manylion yn seiliedig ar y canlynol:

- Byddwch yn benodol am yr hyn rydych chi wedi'i wneud.
- Nodwch pa mor aml neu sawl gwaith rydych chi wedi'i wneud.
- Pa berthnasedd oedd ganddo? Pa gyfraniad a wnaeth?
- Nodwch pryd wnaethoch chi hynny

Mae'n eithaf derbyniol defnyddio penawdau neu restri bwled fel bod eich tystiolaeth yn cyfateb â'r eitem berthnasol ar y fanyleb berson. **Mae'n bwysig nad ydych chi'n gwneud datganiadau yn unig – mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth**. Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen.

Addysg a Hyfforddiant

Rhowch fanylion am eich addysg neu hyfforddiant a'r graddau a gyflawnwyd, gan gynnwys cyrsiau na arweiniodd at arholiad neu gymhwyster e.e. dosbarthiadau nad ydynt yn rhai galwedigaethol neu gyrsiau mewnol a ddarparwyd gan gyflogwyr. Dylech hefyd gynnwys cymwysterau a astudiwyd ond heb eu cwblhau os ydych chi'n credu bod y pwnc yn berthnasol i'r swydd.

Cofiwch gynnwys aelodaeth o gyrff Proffesiynol neu Dechnegol os ydyn nhw'n berthnasol i'r swydd gan nodi lefel yr aelodaeth a ddelir a'r dyddiad pryd y gwnaethoch ymaelodi.

Geirdaon

Bydd angen arnom fanylion ysgrifenedig boddhaol dau ganolwr; rhaid i un geirda fod oddi wrth eich cyflogwr presennol neu, os nad ydych yn gweithio ar hyn o bryd, gan eich cyflogwr olaf; geirda proffesiynol (e.e. cyflogwr blaenorol, ysgol/coleg, sefydliad gwirfoddol rydych chi wedi'i helpu). Os nad ydych wedi cael eich cyflogi o'r blaen yna bydd angen manylion dau ganolwr cymeriad arnom fel Athro, Tiwtor, neu rywun rydych chi wedi'i adnabod ers nifer o flynyddoedd (ni allwch ofyn i berthynas).

Rhestr Fer

Mae'r broses recriwtio yn gystadleuol iawn ac rydym yn ceisio llunio rhestr fer o'r ymgeiswyr hynny sydd wedi dangos, trwy'r ffurflen gais, eu bod yn diwallu gofynion hanfodol y swydd.

Mae trefniadau arbennig yn berthnasol i ymgeiswyr anabl, gweler isod.

Y Cynllun Cyfweld Gwarantedig

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn dymuno rhoi pob anogaeth i'r rheini sy'n ymgeisio am swydd ac maent yn anabl. Mae ein Cynllun Cyfweld Gwarantedig yn nodi y bydd unrhyw ymgeisydd sydd ag anabledd ac sy'n cwrdd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd y maent yn ymgeisio amdani yn cael cyfweliad.

Os cewch eich dewis ar gyfer cyfweliad gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod am unrhyw gyfleusterau penodol sydd eu hangen e.e. parcio, arwyddwr, Braille, mynediad i gadeiriau olwyn, system ddolen neu ddehonglydd. Gallwch drefnu ymweld â lleoliad y cyfweliad ymlaen llaw, er mwyn ichi benderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau / addasiadau a allai eich cynorthwyo.

Mae cymorth/cyngor i lenwi'r ffurflen hon ar gael drwy glicio ar y ddolen hon:

https://findajob.dwp.gov.uk/